



Cwrs	Hyd	Lleoliad	Cost
Dyfarniad ILM Lefel 3 mewn Arweinyddiaeth a Rheoli	I'w gadarnhau	Pibwrlwyd / Seiliedig ar waith	Pris ar gais*
<p>Mae hwn yn gymhwyster perffaith i bobl sydd â chyfrifoldebau rheoli ond heb gael hyfforddiant ffurfiol ac sy'n angerddol am ddatblygu eu setiau sgiliau. Yn aml bydd cyfranogwyr y cwrs hwn yn bobl sy'n cefnogi arweinwyr tîm ymarferol sy'n dymuno esgyn i'r lefel nesaf o reoli, a rheolwyr sydd angen arwain pobl drwy newid sefydliadol, toriadau cyllidebol neu bwysau eraill.</p>			
Dyfarniad ILM Lefel 3 mewn Coetsio	I'w gadarnhau	Pibwrlwyd / Seiliedig ar waith	Pris ar gais*
<p>Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i bobl sydd yn eu swyddi rheoli cyntaf – gan gynnwys arweinwyr tîm a rheolwyr llinell flaen. Bydd y cwrs yn cyflwyno amrywiaeth o offerynnau rheoli ac yn adeiladu hyder i goetsio pobl fel rhan o'ch rôl waith arferol.</p>			
Diploma ILM NVQ Lefel 4 mewn Arweinyddiaeth a Rheoli	I'w gadarnhau	Pibwrlwyd / Seiliedig ar waith	Pris ar gais*
<p>Mae'r Diploma ILM NVQ Lefel 4 mewn Arweinyddiaeth a Rheoli'n ddelfrydol i reolwyr sy'n symud i swydd rheolaeth ganol, sy'n dal i gadw cyfrifoldeb am brosesau gweithrediadol ond sy'n symud i ffwrdd o ddyletswyddau rheoli llinell dydd i ddydd.</p>			
Diploma ILM NVQ Lefel 5 mewn Rheoli	I'w gadarnhau	Pibwrlwyd / Seiliedig ar waith	Pris ar gais*
<p>Mae'r Diploma ILM NVQ Lefel 5 mewn Rheoli ac Arweinyddiaeth wedi'i anelu at uwch reolwyr sydd â chyfrifoldeb am raglenni ac adnoddau sylweddol. Mae'n datblygu sgiliau mewn cynllunio strategol, newid strategol a chynllunio prosesau busnes ynghyd â galluoedd arweinyddiaeth a rheoli craidd fel ysbrydoli cydweithwyr a chyflenwi canlyniadau.</p>			
Hyfforddiant Achrededig IASSC Lean Six Sigma Gwregys Melyn	50 Awr	Ar-lein	£235
<p>Mae cwrs ar-lein Lean Six Sigma Gwregys Melyn yn cynnig dealltwriaeth sylfaenol a chyflwyniad i fethodoleg Lean Six Sigma a'r offerynnau a'r technegau mae'n eu defnyddio i wella proses. Mae cwrs ar-lein Achrededig IASSC Gwregys Melyn Lean Six Sigma yn gwrs hanfodol i'r rheini sydd am fod yn aelod cynhyrchiol o dîm prosiect gwella proses.</p>			
Hyfforddiant Achrededig IASSC Lean Six Sigma Gwregys Gwyrdd	70 Awr	Ar-lein	£319
<p>Mae gweithwyr proffesiynol sydd wedi dilyn hyfforddiant Lean Six Sigma Gwregys Gwyrdd yn cynnig yr arweiniad ac egwyddorion rheoli sydd eu hangen ar dimau gwella proses ac ansawdd er mwyn cyflwyno dull effeithlon o reoli gweithrediadau a chodi safonau. Defnyddiwyd egwyddorion sylfaenol Lean Six Sigma (Diffinio, Mesur, Dadansoddi, Gwella, Rheoli) yn wreiddiol yn y diwydiant gweithgynhyrchu, ond wrth i'r fethodoleg esblygu mae wedi'i defnyddio mewn llawer o ddiwydiannau eraill gan gynnwys adeiladu, gofal iechyd ac awyrennau.</p>			



Cwrs	Hyd	Lleoliad	Cost
Hyfforddiant Achrededig IASSC Lean Six Sigma Gwregys Du	100 Awr	Ar-lein	£419
<p>Cwrs hyfforddi Lean Six Sigma Gwregys Du yw'r cymhwyster perffaith i arweinwyr prosiect sy'n dymuno gwella a defnyddio gwybodaeth am brosesau Six Sigma. Bydd cwblhau Hyfforddiant Lean Six Sigma Gwregys Du yn sicrhau bod dysgwyr yn gwybod sut i wella prosesau i weithredu ffyrdd llwyddiannus o godi safonau a gwella effeithlonrwydd gweithredu gan ddefnyddio data a thechnegau dadansoddi.</p>			
PRINCE2: Sylfaen	20 Awr	Ar-lein	£429
<p>Gan mai dyma'r dull rheoli prosiect a arferir fwyaf drwy'r byd, mae hyfforddiant PRINCE2® yn ddelfrydol i'r rheini sy'n gweithio mewn rolau rheoli prosiect, neu sy'n dymuno gwneud hynny. Bydd hyfforddiant PRINCE2® lefel Sylfaen yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm rheoli prosiect mewn amgylchedd sy'n cefnogi PRINCE2®. Y cwrs hwn yw'r cam cyntaf delfrydol ar gyfer y rheini sy'n newydd i reoli prosiectau, yn enwedig yn y sector cyhoeddus.</p>			
PRINCE2: Ymarferwr	40 Awr	Ar-lein	£559
<p>Gan adeiladu ar yr astudiaethau ar y lefel sylfaen, mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol ar gyfer busnesau sy'n dymuno hyfforddi staff ar lefel uwch PRINCE2®.</p> <p>Ar lefel Ymarferwr, bydd myfyrwyr yn dysgu sut i deilwra'r saith Egwyddor, Thema a Phroses ar gyfer pob prosiect, a sut i'w cymhwyso yn y cyd-destun cywir. Mae'r astudiaeth ddwysach hon o fethodoleg PRINCE2® yn hanfodol i reolwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd sy'n cefnogi PRINCE2®.</p>			

*Cyllidir ymgeiswyr cymwys yn llawn/rhannol